

Arolygiad Iechyd Meddwl/Anabledd Dysgu (Dirybudd)

Plas Coed Du: Wardiau Onwydd,
Ffawydd a Chedrwydd: Coed Du
Hall Limited

23 a 24 Medi 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	3
2. Methodoleg.....	4
3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth.....	6
4. Crynodeb.....	7
5. Canfyddiadau	10
Safonau Craidd	10
Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl.....	19
Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl.....	20
6. Y Camau Nesaf	21
Atodiad A.....	22

1. Cyflwyniad

Mae ein harolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Ffonitro'r cydymffurfriad â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011

Canolbwynt arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath:

- yn ddiogel
- yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig a chartrefol
- yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynllun gofal a thriniaeth
- yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- yn cael gwneud dewisiadau ac yn cael eu hannog i wneud hynny
- yn cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial
- yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i fynegi pryderon a gwneud cwynion
- yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny

2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflwyno'r arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys:

- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr gyda chleifion, perthnasau, eiriolwyr a chroestoriad o staff, gan gynnwys y clinigydd cyfrifol, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, addysgwyr, a staff nyrsio
- Cyfweiliadau ag uwch-staff, gan gynnwys aelodau'r bwrdd lle y bo'n bosibl
- Archwilio dogfennau gofal, gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar bolisiau allweddol a gweithdrefnau
- Arsylwi ar yr amgylchedd
- Craffu ar yr amodau cofrestru ar gyfer y sector annibynnol
- Archwilio ffeiliau staff gan gynnwys cofnodion hyfforddiant
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Ystyried sut y gweithredir Mesur Cymru (2010)¹
- Archwilio cofnodion atgyfeirio yn ymwneud ag ataliaeth, cwynion, pryderon, ac amddiffyn oedolion agored i niwed
- Rhoi trosolwg o brosesau storio, gweinyddu, archebu a chofnodi cyffuriau gan gynnwys cyffuriau a reolir

¹ Deddfwriaeth sylfaenol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Mesur. Ymhlith materion eraill, mae'n darparu ar gyfer asesu, cynllunio gofal, a chydgysylltu mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

- Ystyried ansawdd y bwyd
- Gweithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a lleyg ar gyfer y broses arolygu, gan gynnwys adolygwr â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiad â Deddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn.

3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynhaliodd AGIC ymweliad dirybudd, ym maes iechyd meddwl ac anableddau dysgu, ag ysbyty Plas Coed Du, yr Wyddgrug, ar noswaith 23 Medi a thrwy'r dydd ar 24 Medi 2015.

Cofrestrwyd ysbyty annibynnol Plas Coed Du gydag AGIC yn gyntaf ym mis Ebrill 2004, ac ar adeg ein hymweliad, roedd wedi'i gofrestru i ddarparu gofal i 22 o gleifion ar dair ward. Mae'r ysbyty'n cynnig gwasanaeth trin a nysio cleifion ag anabledd dysgu a salwch meddwl gweithredol, y gellir eu cadw dan ddarpariaethau Deddf Iechyd Meddwl 1983 hefyd.

Yn ystod ein hymweliad, gwnaethom gynnal adolygiad o'r meysydd a nodwyd, gan gynnwys adolygu cofnodion cleifion, cyfweld â chleifion a staff, adolygu'r amgylchedd gofal, ac arsylwi ar yr ymadweithio rhwng y staff a'r cleifion. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys un adolygydd y Ddeddf Iechyd Meddwl, un adolygydd cymheiriaid, un adolygydd lleyg, a dau aelod o staff AGIC.

4. Crynodeb

Cynhaliwyd ein harolygiad o ysbyty Plas Coed Du ym mhob un o'r tair o wardiau. Gwelsom fod lle sylweddol i wella, ac roedd rhai o'r materion yn parhau i fod heb eu cyflawni ers ein hymweliad diwethaf ym mis Hydref 2014, ond roeddem hefyd yn falch i nodi nifer o ganfyddiadau cadarnhaol.

Roedd y buddsoddiad yn yr amgylchedd wedi sicrhau gwelliant sylweddol i'r cyfleusterau ar gyfer y cleifion. Er nad oedd y gwaith ailaddurno wedi'i gwblhau ym mhob rhan o'r ysbyty ar adeg ein hymweliad, roedd yr ardaloedd a oedd wedi eu gorffen yn fodern a golau, o'u cymharu â'r ardaloedd nad oedd wedi'u cwblhau eto.

Byddai'r man yn yr awyr agored yn lle ardderchog i'r cleifion i gyd os byddai rhai addasiadau'n cael eu gwneud er mwyn sicrhau diogelwch cleifion â phroblemau symud a gweld. Yn arbennig, byddai rheiliau llaw a llwybrau cadarn yn caniatáu i bob claf ddefnyddio'r man yn yr awyr agored.

Mae angen cynnal adolygiad ar gyfer rhai o'r cadeiriau. Ar adeg ein hymweliad, roedd cadeiriau bwyta heb freichiau yno, felly nid oeddent yn gallu cynnal cleifion bregus. Yn ogystal, roedd rhai o'r cadeiriau esmwyth yn yr ardal therapi galwedigaethol/bwyta ac ar Ward Cedrwydd yn isel iawn ac yn anodd codi ohonynt.

Roedd y system cerdyn allwedd newydd ar waith yn ychwanegiad newydd ers ein hymweliad diwethaf. Fodd bynnag, doedd dim digon o gardiau allwedd ar gael i'r holl staff. Roedd yn rhaid i'r staff rannu eu cardiau gyda chydweithwyr eraill. Mae'n ofynnol cael cardiau allwedd ychwanegol er mwyn galluogi'r staff i gael mynediad anghyfyngedig i bob ardal.

Roedd y system rybuddio oedd ar waith, i hysbysu staff pan fod claf wedi gadael ei ystafell, yn swnllyd. Yn ystod ein hymweliad yn y nos, roedd larwm yn canu. Roedd yn uchel, ac yn amlwg, byddai'n tarfu ar gyd-gleifion. Mae angen cynnal adolygiad ar gyfer y system hon er mwyn sicrhau nad yw'r sŵn, yn enwedig yn ystod y nos, yn amharu ar gleifion sy'n cysgu.

Roedd yn braf nodi gwelliannau o ran y tîm amlddisgyblaethol, gyda phob disgyblaeth yn cael cyfrannu'r un faint. Un maes y mae angen rhoi sylw iddo yw'r cyfathrebu o ganlyniad i gamau gweithredu'r tîm amlddisgyblaethol. Mae angen trosglwyddo unrhyw newidiadau o bwys o ran anghenion gofal claf i'r holl staff er mwyn sicrhau bod y claf yn cael y gofal sydd ei angen.

Roedd morâl yn parhau i fod yn broblem ymhlith y staff, a chyfeiriodd y staff at yr ansicrwydd ynghylch arweinyddiaeth a dyfodol y gwasanaeth fel y prif ffactorau sy'n cyfrannu at hynny. Mae angen gwella morâl.

Roedd pob un o ffeiliau'r staff a adolygwyd yn cynnwys tystiolaeth o arfarniad cyfredol a bod sesiynau goruchwyllo'n cael eu cynnal yn rheolaidd. Roedd rhaglen o hyfforddiant gorfodol ar waith, ac er i ni nodi bod dros 50% o'r staff yn cydymffurfio 90%-100%, roedd rhai o'r staff heb wneud y rhan fwyaf o'r modiwlau hyfforddi. Mae angen rhoi blaenoriaeth i rai meysydd, ac mae'r rhain yn cynnwys hyfforddiant ar ddiogelu, y Ddeddf Iechyd Meddwl, a pharch.

Nodwyd bod dim digon o staff ar gael yn aml, a defnyddiwyd staff asiantaeth yn aml iawn. Mae recriwtio staff parhaol yn hanfodol er mwyn sicrhau dilyniant yn y gofal, ac mae'n rhaid hyrwyddo hyn. Hefyd, os oes rhaid defnyddio staff asiantaeth, byddai trefnu'r un staff asiantaeth rheolaidd o fudd wrth ddarparu cysondeb o ran gofal i gleifion.

Trwy gydol ein hymweliad, roedd nifer o staff asiantaeth ar y sifft, ac o adolygu'r ffeil asiantaeth, gwelwyd nad oedd unrhyw wybodaeth ar gael am sgiliau, profiad na gwybodaeth rhai o'r staff asiantaeth. Roedd tystysgrifau hyfforddiant rhai o'r staff asiantaeth a ddefnyddiwyd yn ddiweddar wedi dod i ben, ac felly pe byddai argyfwng, ni fyddai ganddynt y sgiliau cyfredol i ymdrin â'r sefyllfa. Yn ogystal â hyn, nodwyd problemau yn ymwneud â hyfforddiant sefydlu'r staff asiantaeth. Roedd llofnod y staff yn eisiau ac nid oedd yn glir os oedd y staff asiantaeth wedi cael hyfforddiant sefydlu. Mae diofalwch y sefyllfa hon yn annerbyniol, ac mae angen i'r darparwr cofrestredig gael gafael ar y wybodaeth angenrheidiol cyn llogi unrhyw staff asiantaeth. Mae hefyd yn angenrheidiol sicrhau bod hyfforddiant sefydlu manwl a thrylwyr yn cael ei ddarparu er mwyn sicrhau bod yr aelod o staff yn gallu bod yn gyfrifol am eu sifft mewn modd effeithiol.

Cafodd dogfennau cynllunio gofal cleifion eu harchwilio, a nodwyd nifer o bethau oedd angen sylw o ran ansawdd y dogfennau. Rhoddwyd manylion penodol i'r darparwr yn ystod yr adborth, gan gynnwys rhoi llythrennau cyntaf cleifion ar y cofnodion er mwyn sicrhau y gallai cofnodion unigol gael eu diwygio. Nid oedd nifer o gynlluniau ar gael ar gyfer rhai cleifion, ac nid oedd cynlluniau eraill wedi'u cwblhau'n gywir.

Gwnaethom nodi gwelliant o ran profiad bwyta'r cleifion, ac roedd pob claf yn mynd i'r ystafell fwyta i fwyta yn hytrach nag aros am y troli gweini i gael ei anfon i bob ward. Roedd cod lliw ar gyfer y dewisiadau bwyd ar y bwydlenni a arddangoswyd i nodi'r bwydydd iach a'r bwydydd braster/siwgr uwch. Ystyriwyd bod y bwydlenni darluniadol yn drawiadol.

Roedd ennill Safon Arlwyo Aur gan gynllun 'Bwyd am Oes' Cymdeithas y Pridd yn bwysig, gan gydnabod ymdrech yr ysbyty i wella safonau mewn nifer o ffyrdd.

5. Canfyddiadau

Safonau Craidd

Amgylchedd y ward

Adeilad un llawr yw ysbyty Plas Coed Du sydd wedi'i leoli ar dirwedd wledig. Mae tair ward yn yr ysbyty, Onwydd, Ffawydd a Chedrwydd, a gwnaethom nodi bod y buddsoddi yn yr amgylchedd wedi gwneud gwelliant sylweddol i'r cyfleusterau sydd ar gael i'r grŵp cleifion. Ar adeg ein hymweliad, roedd Ward Ffawydd wedi'i hailaddurno ond yn wag, ac roedd y gwaith ailaddurno i fod i ddechrau ar Ward Cedrwydd.

Ceir mynediad i'r ysbyty trwy dderbynfa, ac mae desgiau yno ar gyfer aelodau'r staff. Y tu draw i'r dderbynfa, mae swyddfa ar gyfer rheolwr yr ysbyty. Mae drws o'r dderbynfa yn arwain at ardal gymunedol sy'n cynnwys ystafell i ymwelwyr, cegin staff, ac ystafell gyfarfod.

Roedd yr ystafell therapi galwedigaethol/fwyta yn ardal agored fawr gydag ardal fwyta yn un gornel. Roedd pedwar bwrdd ac 18 o gadeiriau, ac roedd hynny'n ddigon ar gyfer nifer y cleifion oedd yn yr ysbyty yn ystod ein hymweliad. Nid oedd breichiau ar yr un o'r cadeiriau bwyta i helpu i gynnal cleifion os oedd y ddarpariaeth hon yn ofynnol, a dylid ystyried yr angen hwn. Wrth ymyl yr agorfa weini, roedd bwydlen a oedd yn arddangos y dewisiadau ar gyfer yr wythnos.

Roedd yr ardal therapi galwedigaethol/fwyta wedi'i hailaddurno, ac ynddi roedd dodrefn newydd, gan gynnwys cadeiriau, cypyrddau llyfrau, a theledu. Roedd y cadeiriau'n rhy isel, a byddai cleifion â phroblemau symudedd yn cael trafferth codi o'r cadeiriau. Roedd y cypyrddau llyfrau yn cynnwys amrywiaeth o ddeunydd darllen, ac roedd yr hysbysfyrddau gwybodaeth i gleifion yn arddangos ystod dda o wybodaeth i gleifion, gan gynnwys gwybodaeth am eiriolaeth, gweithgareddau, llefydd diddorol, a digwyddiadau i gleifion.

Roedd drws o'r ystafell therapi galwedigaethol/fwyta yn arwain at goridor hir, ac roedd wardiau Onwydd a Ffawydd wedi'u lleoli oddi wrtho. Ar ddiwedd y coridor, roedd swyddfa'r nyrsys a'r clinig ger Ward Cedrwydd.

Ar adeg ein hymweliad, roedd Ward Ffawydd yn wag ac roedd Ward Onwydd yn derbyn cleifion benywaidd. Roedd y ddwy ward newydd gael eu hadnewyddu a'u peintio. Wrth fynd i mewn i Ward Onwydd, roeddech yn cyrraedd cegin fach ac roedd teils newydd gael eu gosod ynddi yn ogystal ag

arwynebau gwaith ac unedau newydd. Roedd peiriannau integredig, gan gynnwys microdon, yn rhoi golwg fodern i'r gegin. Roedd bwrdd bach gyda phedair cadair ar gael i gleifion eistedd a bwyta.

Roedd ystafelloedd gwely'r cleifion wedi'u hailbeintio, ac roedd dodrefn newydd yn rhoi digon o le i storio i gleifion. Roedd system galw nyrs, sinc, a switsh pylu i reoli cryfder y golau ar gael ym mhob ystafell wely. Roedd dwy ystafell ymolchi yn y ward, ac roedd bath yn un ohonynt ac ystafell wlyb yn y llall, ond roedd toiledau yn y ddwy ystafell. Ar adeg ein hymweliad, roedd tipyn o arogl tamprwydd yn yr ystafell wlyb.

Yn y lolfa, roedd carped a llenni newydd, uned storio a theledu, yn ogystal â digon o gadeiriau ar gyfer y grŵp cleifion.

Yn y coridor hir, roedd ystafell haul gyda chadeiriau wedi'i hadnewyddu, ac ychwanegwyd drysau er mwyn rhoi rhywfaint o breifatrwydd i'r cleifion a'r staff.

Roedd saith o gleifion gwrywaidd yn Ward Cedrwydd, sy'n uned gyda deg gwely. Yn wahanol i weddill yr ysbyty, roedd Ward Cedrwydd yn ymddangos yn ddi-raen ac wedi'i threulio. Fodd bynnag, roedd cynlluniau i'w hadnewyddu.

Roedd cyfleusterau en-suite ym mhob ystafell wely ar Ward Cedrwydd, ac roedd yn rhoi digon o le i gleifion gadw eu heiddo. Ar adeg ein hymweliad, roedd y lolfa/cegin fwyta yn ganolbwynt i'r grŵp cleifion. Roedd digon o gadeiriau yn yr ystafell i'r cleifion, ac roedd teledu newydd yn cael ei osod yn ystod ein hymweliad. Roedd diodydd a byrbrydau di-ben-draw ar gael yn y gegin, pe byddai cleifion eu heisiau. Roedd hysbysfwrdd wrth y gegin yn arddangos gwybodaeth i gleifion.

Roedd y cleifion yn cael mynd i ardal yn yr awyr agored gyda lloches ysmegu a gerddi. Roedd cegin therapi newydd wedi'i gosod.

Ar adeg ein hymweliad, roedd larymau mewn dwy ystafell wely ac roedd y rhain yn rhybuddio staff pan oedd y cleifion yn gadael eu hystafelloedd gwely. Roedd y larymau'n uchel a byddai'n tarfu ar gyd-gleifion, yn enwedig yn ystod y nos. Mae angen cynnal adolygiad ar gyfer y system hon.

Camau gofynnol

Mae angen cynnal adolygiad o ran addasrwydd y dodrefn, yn arbennig y cadeiriau bwyta a'r cadeiriau esmwyth, ar gyfer y grŵp cleifion.

Mae'n ofynnol cynnal adolygiad ar gyfer y system larwm sy'n rhybuddio staff pan fydd cleifion yn gadael eu hystafelloedd gwely, er mwyn sicrhau nad yw sŵn y larwm yn tarfu ar gleifion, yn enwedig yn y nos.

Diogelwch

Dyweddod y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysbyty, a dywedodd y rhan fwyaf o'r staff y gwnaethom siarad â nhw nad oedd ganddynt unrhyw bryderon o ran diogelwch. Fodd bynnag, gwnaed sylwadau ynglŷn â diogelwch yr amgylchedd materol, yn benodol ar gyfer y cleifion hynny oedd yn defnyddio cadeiriau olwyn a/neu yn rhannol ddall. Roedd llwybrau graean a llethrau mewn rhai mannau y tu allan i'r ysbyty, ac roedd hynny'n gwneud pethau'n anodd i'r cleifion hyn allu defnyddio'r ardal yn yr awyr agored yn ddiogel a heb gymorth. Awgrymodd y staff fod angen rheiliau llaw i wneud rhai mannau'n ddiogel, ac roedd angen gosod llwybr yn lle'r graean er mwyn ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr cadair olwyn fynd yno.

Wrth arsylwi rhai o'r cadeiriau yn yr ysbyty, nodwyd bod y cadeiriau esmwyth yn isel iawn a bod dim breichiau ar yr un o'r cadeiriau yn yr ystafell fwya i gynnal cleifion. Dywedodd rhai o'r staff wrthym fod angen cymorth ar gleifion wrth godi os oeddent yn eistedd ar y cadeiriau isel, a bod y problemau'n ymwneud â'r cadeiriau isel wedi cael eu mynegi ond nad oedd unrhyw gamau wedi'u cymryd.

Ar adeg ein hymweliad, roedd un claf wedi'i nodi ddwywaith ar restr ar yr hysbysfwrdd gwybodaeth am gleifion, ac arweiniodd hynny at ddryswch ynglŷn â nifer y cleifion. Mae'n hanfodol bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chofnodi'n briodol er mwyn sicrhau bod y math hwn o ddryswch yn cael ei osgoi, oherwydd pe byddai argyfwng, byddai'r nifer anghywir yn cael ei roi i'r gwasanaethau brys.

Roedd system cerdyn allwedd drws newydd ar waith a oedd yn galluogi staff i fynd i bob ardal. Ar adeg ein hymweliad, roedd prinder cardiau allwedd, ac roedd yn rhaid i staff rannu. Mae'n rhaid sicrhau bod mwy o gardiau allwedd ar gael.

Mae angen cynnal adolygiad o ran nifer y staff. Dywedodd staff wrthym fod nifer y staff yn gostwng yn sylweddol ar ôl 4pm, gan adael dau weithiwr cymorth yn aml ar ward. Ar adegau, bu un aelod o staff yn gweithio ar sail 1:1 tra bod y gweithiwr cymorth gofalu arall yn gofalu am y cleifion eraill. Mae sefyllfaoedd fel hyn yn gadael staff mewn sefyllfa fregus, ac mae hefyd yn amharu ar ofal y cleifion.

Camau gofynnol

Mae angen cynnal adolygiad ar gyfer yr ardaloedd y tu allan er mwyn sicrhau bod yr holl fannau hyn yn hygyrch ac yn ddiogel ar gyfer pob claf.

Mae'n rhaid cael cardiau allwedd ychwanegol er mwyn sicrhau bod un ar gyfer pob aelod o'r staff.

Mae angen cynnal adolygiad o niferoedd y staff er mwyn sicrhau bod digon o staff ym mhob ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Y tîm amlddisgyblaethol

Roedd tîm amlddisgyblaethol yn yr ysbyty, ac roedd yn cynnwys clinigydd cyfrifol, staff nyrsio, seicolegydd, a therapyddion galwedigaethol. Dywedodd aelodau staff a oedd yn aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol wrthym ei fod yn gweithio'n fwy effeithiol a bod cleifion yn cael eu hadolygu bob mis.

Dywedodd aelodau'r tîm amlddisgyblaethol eu bod yn gweithio'n broffesiynol a chydweithredol, a bod eu safbwyntiau proffesiynol yn cael eu gwerthfawrogi.

Dywedodd staff wrthym fod lle i wella o ran cyfathrebu, gan mai ychydig iawn o adborth oedd yn cael ei roi gan y tîm amlddisgyblaethol. Roedd gweithiwr allweddol yn siomedig pan nad oedd newidiadau i ddeiet claf wedi'i fynegi. Digwyddodd cydweithiwr sôn am hyn wrth fynd heibio, ac nid oedd hyn yn sefyllfa ddelfrydol. Mae angen cyflwyno negeseuon allweddol ynglŷn â gofal cleifion i bob aelod o staff priodol er mwyn sicrhau bod dilyniant o ran gofal yn cael ei ddarparu.

Preifatrwydd ac urddas

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun, ac roedd cyfleusterau ymolchi i'w rhannu ar wardiau Onwydd a Ffawydd a chyfleusterau en-suite ar Ward Cedrwydd. Roedd yr ystafelloedd gwely'n cynnig digon o le storio, ac roedd cleifion yn gallu personoli eu hystafelloedd â lluniau a phosteri. Mae'r staff yn cloi a datgloi drysau eu hystafelloedd gwely, a dywedodd cleifion fod y staff yn parchu eu preifatrwydd a'u hurddas.

Roedd cyfleusterau ar gael i gleifion allu treulio amser gyda'u teulu a'u ffrindiau, ac roedd ystafell i ymwelwyr wrth y dderbynfa. Roedd ffôn talu yng nghoridor y ward, ac roedd ffôn y swyddfa ar gael i'r cleifion ddefnyddio hefyd.

Dywedodd cleifion wrthym fod ganddynt nyrs benodedig a'u bod yn gallu ei chyfarfod yn breifat.

Therapiau a gweithgareddau i gleifion

Yn ystod ein hymweliad, gwelsom rai cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, yn cynnwys cwis a jig-sos. Roedd rhai cleifion yn cael eu cludo i'r gymuned er mwyn siopa a chymryd rhan mewn gweithgareddau

hamdden. Cadarnhawyd yn ystod trafodaethau gyda'r staff bod amrywiaeth o weithgareddau ar gael, yn cynnwys gweithgareddau celf a chreffft, gemau bwrdd, lliwio, a DVDau. Roedd triapiau siopa personol, bowlio, teithiau cerdded lleol, nofio ac ymweld â marchnadoedd lleol ar gael yn y gymuned. Fodd bynnag, dywedodd staff fod rhai o'r cleifion ag anghenion cymhleth yn anodd eu rheoli ac yn anodd darparu ar eu cyfer. Roedd ymrwymiad i fynd â chleifion allan ddwy neu dair gwaith yr wythnos, ond roedd rhai cleifion angen goruchwyliaeth o dri staff i un, ac roedd hynny'n gallu effeithio ar niferoedd y staff.

Dywedodd cleifion nad oedd ganddynt ddigon i'w wneud, ond gofynnwyd iddynt beth oeddent yn hoffi ei wneud. Dywedodd y therapydd galwedigaethol wrthym fod y gweithgareddau sydd ar gael i gleifion yn cynyddu a bod y therapydd galwedigaethol yn cofnodi gweithgareddau'r cleifion o ddydd i ddydd. Roedd system newydd ar waith lle roedd cleifion yn cwblhau ffurflen gais gweithgareddau ar gyfer gweithgareddau yn y gymuned. Roedd y system newydd hon yn gofyn am lawer o anogaeth gan y therapydd galwedigaethol i gael cleifion i ddefnyddio'r ffurflenni a chynllunio eu hamser.

Dywedodd y therapydd galwedigaethol wrthym eu bod yn cydweithio mwy gyda gweithwyr cymorth gofal, a'u bod yn annog cleifion i gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau ar y wardiau. Roedd gweithgareddau celf a chreffft, gemau, a cherddoriaeth yn cael effaith gadarnhaol.

Roedd pob claf wedi cofrestru gyda meddyg teulu, ac roedd mynd at ddeintydd, ciropodydd, optegydd ac yn y blaen yn cael ei hwyluso. Roedd cyfleusterau golchi dillad ar gael yn yr ysbyty, ac roedd cleifion yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i'w defnyddio.

Bwyd a maeth

Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn mwynhau'r prydau bwyd a weinir yn yr ysbyty ar y cyfan. Roedd bwydlenni wedi'u harddangos yn y ward yn ogystal ag yn yr ystafell fwyta. Roedd bwydlen ddarluniadol wedi'i harddangos wrth ymyl y fwydlen ysgrifenedig, ac roedd cod lliw ar gyfer y dewisiadau bwyd ar y fwydlen ysgrifenedig i helpu'r cleifion i ddewis bwydydd addas i'w hanghenion, gan gynnwys cod gwyrdd ar gyfer dewisiadau bwyd iach a chod coch ar gyfer bwydydd braster uwch.

Roedd rota bwydlen pedair wythnos ar waith, ac roedd y cleifion yn cael cynnig tri phryd bwyd y diwrnod, gan gynnwys brechwast, cinio a the. Roedd brechwast yn cynnwys grawnfwydydd, uwd, tost, a jamiau a diodydd, ac roedd yn wasanaeth helpu'ch hun gyda chymorth y staff nyrsio a'r staff cymorth. Roedd cinio'n cael ei weini am 1pm, pan oedd y prif bryd bwyd yn cael ei ddarparu. Roedd tri dewis yn cael ei roi i'r cleifion, gan gynnwys dewis

llysieuol a chynigiwyd ffrwyth neu iogwrt yn bwdin. Roedd te'n cael ei weini am 5pm, ac roedd byrbrydau ysgafnach, megis cawl, bara fflat, saladau a phwdin yn cael eu cynnig i'r cleifion.

Darparwyd ar gyfer cleifion ag anghenion deiet arbennig, ac roedd yn braf dysgu bod yr ysbyty wedi ennill Safon Arlwygo Aur gan gynllun 'Bwyd am Oes' Cymdeithas y Pridd,² a gwnaethom nodi bod hyn yn gyrhaeddiant o bwys. Mae'r wobwr hon yn cydnabod yr ymdrech mae'r ysbyty wedi'i wneud i wella safonau bwyd mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys gwario o leiaf 15% o'r gyllideb bwyd ar eitemau organig.

Roedd yn bleser gennym nodi bod y profiad bwyta wedi gwella ers ein hymweliad diwethaf, ac roedd y bwyd yn cael ei weini yn ganolog yn yr ystafell fwyta yn hytrach na'i anfon i bob ward ar droli gweini.

Roedd diodydd a byrbrydau ar gael i'r cleifion ar wahân i'r amseroedd bwyd penodol, ac roedd ffrwythau a bisgedi ar gael. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff fod y maint dogn yn foddhaol. Fodd bynnag, dywedodd rhai cleifion y gallai'r maint dogn fod yn fwy.

Hyfforddiant

Cynhaliwyd adolygiad o bum ffeil staff, a gwelsom dystiolaeth bod archwiliad cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ym mhob ffeil. Mae'r arfer hwn yn sicrhau bod yr ysbyty'n cynnal archwiliad annibynnol, sy'n helpu i wella gallu'r sefydliad i asesu gonestrwydd a chymeriad ei staff. Roedd gan y staff â chofrestriad proffesiynol dystiolaeth yn eu ffeil ei fod yn gyfredol.

Er bod tystiolaeth yn y ffeiliau a adolygwyd bod contract, llythyr cynnig, dau eirda a chwestiynau'r cyfweliad ar gyfer y gweithwyr, roedd rhywfaint o'r gwaith papur ar gyfer swyddi gwahanol o fewn y sefydliad. Yn benodol, roedd gan weithiwr lythyr cynnig i'w swydd flaenorol a ffurflen gais ar gyfer ei swydd gyntaf o fewn y sefydliad. Nid oedd unrhyw waith papur cyson yn y ffeil i ddangos tystiolaeth o swydd bresennol y gweithiwr.

Roedd y blwch llun wedi'i dicio ym mhob ffeil a oedd yn cynnwys Ffeil Archwilio Unigol Plas Coed Du ar gyfer 2015. Fodd bynnag, nid oedd llun wedi'i atodi yn yr un ffeil. Os yw'n ofynnol i gynnwys yr wybodaeth hon yn y ffeiliau, mae'n hanfodol ei bod yn cael ei hychwanegu.

Roeddem yn falch o nodi bod tystiolaeth o arfarniad cyfredol ym mhob ffeil. Cynhaliwyd sesiynau goruchwyllo'n rheolaidd hefyd, ac roedd y rhain yn cael eu dogfennu, a chadarnhaodd y staff eu bod yn derbyn sesiwn oruchwyllo bob pedair i wyth wythnos.

² Am ragor o wybodaeth ynglŷn â Nod Arlwygo Bwyd am Oes Cymdeithas y Pridd, ewch <http://www.sacert.org/catering/hospitalscaresettings>

Roedd rhaglen o hyfforddiant gorfodol ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff, ac roedd y daenlen hyfforddiant ar gyfer cofnodi a monitro gwybodaeth yn gynhwysfawr ac yn rhwydd i'w dilyn. Ar adeg ein hymweliad, roedd dros 50% o'r staff yn cydymffurfio rhwng 90% a 100% gyda'u hyfforddiant gorfodol. Fodd bynnag, amlygodd y wybodaeth a ddarparwyd bod rhai aelodau o'r staff heb ddilyn yr hyfforddiant gorfodol ar gyfer y rhan fwyaf o'r modiwlau. Mae angen adolygu a rhoi sylw i hyn er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi diweddarau ei hyfforddiant.

Mae angen monitro'r gyfradd gwblhau ar gyfer diogelu a'r Ddeddf Iechyd Meddwl oherwydd gellir gwella'r gyfradd gwblhau, ond mae angen rhoi sylw a blaenoriaeth i hyfforddiant parch lle mae'r gyfradd gwblhau'n is na 50%.

Nodwyd bod aelod o staff a benodwyd yn ddiweddar wedi dechrau gweithio yn y gegin heb gael unrhyw hyfforddiant gorfodol.

Dyweddodd staff wrthym fod nifer y staff yn aml yn isel a bod staff asiantaeth yn cael eu defnyddio'n aml iawn. Nid oedd defnyddio nifer fawr o staff asiantaeth yn hwyluso dilyniant o ran gofal i'r cleifion, ac argymhellir gofyn am yr un staff os yw staff asiantaeth am gael eu defnyddio. Yn ogystal, roedd angen recriwtio nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal er mwyn sicrhau dilyniant o ran gofal ar gyfer y grŵp cleifion.

Dyweddodd y staff fod morâl yn isel iawn yn yr ysbyty drwyddo draw, a'r rhesymau a roddwyd dros gyfrannu at forâl isel oedd staff da yn gadael, teimladau o ansicrwydd ynglŷn â'r gwasanaeth a'i ddyfodol, prinder staff, a threulio llai o amser gyda'r cleifion. Mae morâl isel yn parhau i fod yn broblem ymhlith y staff, ac mae'r ansicrwydd ynghylch arweinyddiaeth a dyfodol y gwasanaeth yn ddau faes sy'n effeithio ar hyn yn fawr.

Trwy gydol ein hymweliad, roedd nifer o staff asiantaeth ar y sifft. Yn ystod ein hymweliad gyda'r nos, roedd nyrs asiantaeth yn gyfrifol am yr ysbyty. O archwilio'r ffeil staff asiantaeth, gwelwyd nad oedd unrhyw wybodaeth am sgiliau, profiad na gwybodaeth rhai o'r gweithwyr asiantaeth ar gael yn y ffeil. Mae'r mater hwn wedi'i nodi yn ystod ymweliadau blaenorol, ac mae'n bwysig cael gwybodaeth ynglŷn â sgiliau, gwybodaeth a phrofiad y staff.

Yn ogystal, cwblhaodd y nyrs asiantaeth, oedd ar ddyletswydd yn ystod ein hymweliad gyda'r nos, ei hyfforddiant sefydlu yn ystod ei sifft flaenorol ym mis Awst 2015. Roedd yr adran llofnodion staff ar gyfer cadarnhau bod y staff asiantaeth wedi derbyn y wybodaeth gywir yn ystod yr hyfforddiant sefydlu yn wag, felly nid oedd yn bendant a oedd y staff asiantaeth wedi cael hyfforddiant sefydlu priodol ar gyfer yr ysbyty. Cadarnhaodd y nyrs asiantaeth ei bod wedi cwblhau ei hyfforddiant Ymyriad Corfforol dan Reolaeth yn 2012. Felly os byddai digwyddiad lle byddai angen defnyddio ataliaeth, ni fyddai gan y nyrs gymhwyster cyfredol. Cafodd dau staff asiantaeth eu

defnyddio ym mis Medi, ac roedd eu CVau a ddarparwyd gan yr asiantaeth yn amlygu bod eu hyfforddiant wedi dod i ben ym mis Tachwedd 2014 a mis Ebrill 2015 yn y drefn honno. Mae'r sefyllfa hon yn annerbyniol ac yn rhoi staff eraill a'r grŵp cleifion mewn perygl diangen. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gan staff asiantaeth y sgiliau, y profiad a'r wybodaeth angenrheidiol sy'n addas ar gyfer y grŵp cleifion.

Argymhellir dadansoddi cwynion er mwyn pennu unrhyw themâu neu dueddiadau rheolaidd fel bod yr ysbyty'n gallu rhoi sylw i'r problemau.

Camau gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig/rheolwr sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth berthnasol am weithwyr asiantaeth, a'u bod yn dadansoddi'r wybodaeth honno, cyn eu bod yn dechrau gweithio ar sifft, er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad cywir sy'n angenrheidiol ar gyfer y grŵp cleifion.

Mae'n rhaid hwyluso'r broses o recriwtio nyrsys cofrestredig a staff cynorthwyol er mwyn sicrhau niferoedd llawn o staff.

Argymhellir trefnu'r un staff asiantaeth rheolaidd er mwyn sicrhau cysondeb o ran gofal i gleifion.

Mae'n rhaid bod pob aelod o'r staff wedi dilyn yr hyfforddiant diweddaraf, yn enwedig o ran parch, diogelu, a'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

Mae'n rhaid i bob aelod newydd o staff dderbyn hyfforddiant yn y rhaglen orfodol cyn dechrau yn y swydd neu'n fuan wedyn.

Mae angen cynnal adolygiad o ffeiliau staff er mwyn sicrhau bod y gwaith papur perthnasol ynglŷn â swydd bresennol cyflogai ar gael.

Rhaid gwella morâl ymhlith staff, a dylid rhoi pwyslais penodol ar arweinyddiaeth a dyfodol y gwasanaeth.

Mae'n ofynnol i ddadansoddi'r cwynion er mwyn pennu unrhyw themâu neu dueddiadau sydd efallai yn dod i'r amlwg y mae angen rhoi sylw iddynt.

Llywodraethu

Dan Reoliad 28 Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig baratoi adroddiad ysgrifenedig ynglŷn â'r meysydd a restrir yn Rheoliad 28 ar gyfer AGIC bob chwe mis. Nid yw AGIC wedi derbyn copïau o unrhyw adroddiadau a wnaed gan y darparwr cofrestredig ers mis Medi 2014.

Cam gofynnol

Mae angen cynnal ymweliadau Rheoliad 28 bob chwe mis, a rhaid anfon yr adroddiadau at AGIC.

Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol pedwar o'r cleifion oedd yn derbyn gofal ar ddwy o'r wardiau ar adeg ein hymweliad. Gwnaed yr arsylwadau canlynol:

- Nid oedd ffurflenni asesu galluedd wedi'u cwblhau yn y ffeiliau a adolygwyd.
- Ni welwyd asesiad gweithiwr cymdeithasol mewn un feil.
- Mewn un feil, nid oedd unrhyw gytundeb ysgrifenedig gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn nodi y gellid caniatáu absenoldeb dan Adran 17.

Cam gofynnol

Mae'n rhaid i'r clinigydd cyfrifol presennol ar gyfer pob claf gwblhau pob ffurflen asesu galluedd.

Mae'n ofynnol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gyflwyno cadarnhad ysgrifenedig er mwyn pennu a ellir caniatáu absenoldeb dan Adran 17.

Mae angen dod o hyd i'r asesiad gweithiwr cymdeithasol sy'n eisiau a'i ychwangeu at feil y claf.

Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cynllunio gofal a thriniaeth dau glaf yn ysbyty Plas Coed Du, a gwneud yr arsylwadau canlynol:

- Nid oedd y cofnodion arsylwi wedi'u cwblhau'n gywir ar gyfer un claf.
- Os oedd claf angen dull mwy ymarferol o ddad-ddwysáu, gwelsom mai dim ond un aelod o staff oedd wedi cael hyfforddiant parch i'r lefel hwnnw.
- Roedd nifer fawr o ddogfennau ar gael, gan gynnwys cynlluniau cymorth ymddygiad cadarnhaol, asesiadau risg, a chynlluniau gofal a thriniaeth, pan fyddai un wedi bod yn ddigon cymwys.
- Nid oedd cynllun rheoli pwysau ar gyfer un claf a oedd angen un.
- Ar gyfer asesiad risg un claf, roedd enw claf arall wedi'i nodi ar y ffurflen.
- Roedd cynnydd sylweddol ym mhwysau un claf, ac nid oedd ei gynllun presennol yn drylwyr. Nid oedd unrhyw gyfeiriad at gyfraniad gan ddietydd yn enwedig.

(Yn ystod y cyfarfod adborth, rhoddwyd llythrennau cyntaf enwau'r cleifion i'r ysbyty er mwyn sicrhau y gellid diwygio eu cynlluniau gofal a thriniaeth.)

Cam gofynnol

Rhaid mynd i'r afael â phob un o'r meysydd a nodwyd, gan gynnwys cwblhau cofnodion arsylwi'n fanwl gywir, darparu hyfforddiant parch ar gyfer mwy o staff, rhoi cynlluniau rheoli pwysau ar waith a sicrhau eu bod yn drylwyr, diwygio'r ffurflen asesiad risg gan nodi enw cywir y cleifion, ac adolygu nifer y dogfennau sydd ar gael a pha fformat y bydd yr ysbyty'n ei ddefnyddio.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i Ysbyty Plas Coed Du gwblhau Cynllun Gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Ysbyty Plas Coed Du yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a chaiff ei werthuso yn rhan o'r broses arolygu barhaus ar iechyd meddwl/anabledd dysgu.

Atodiad A

Iechyd Meddwl/Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella
Darparwr: Coed Du Hall Limited
Ysbyty: Plas Coed Du
Dyddiad yr arolygiad: 23 a 24 Medi 2015

Rhif y dudalen	Cam gofynnol	Rheoliad	Cam gweithredu	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Mae angen adolygu addasrwydd y dodrefn, yn arbennig y cadeiriau bwyta a'r cadeiriau esmwyth, ar gyfer y grŵp cleifion.	15 (1) (a)			
	Mae angen adolygu'r system larwm ar gyfer rhybuddio staff pan fydd cleifion yn gadael eu	19 (1) (b)			

	hystafelloedd gwely, er mwyn sicrhau nad yw sŵn y larwm yn tarfu ar gleifion, yn enwedig yn y nos.				
	Mae angen adolygu'r ardaloedd y tu allan er mwyn sicrhau bod yr holl fannau hyn yn hygyrch ac yn ddiogel ar gyfer pob claf.	15 (1) (a) (b) (d)			
	Mae'n rhaid cael cardiau allwedd ychwanegol er mwyn sicrhau bod un ar gyfer pob aelod o'r staff.	9 (1) (d) ac 19 (1) (b)			
	Mae angen adolygu niferoedd y staff er mwyn sicrhau bod digon o staff ym mhob ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.	15 (1) (a) (b) a 20 (1) (a)			
	Rhaid i'r darparwr cofrestredig/rheolwr sicrhau eu	21 (2) (b)			

	bod yn cael gwybodaeth berthnasol am weithwyr asiantaeth, a'u bod yn dadansoddi'r wybodaeth honno, cyn eu bod yn dechrau gweithio ar sifft, er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad cywir sy'n angenrheidiol ar gyfer y grŵp cleifion.				
	Mae'n rhaid hwyluso'r broses o recriwtio nysrys cofrestredig a staff cynorthwyol er mwyn sicrhau niferoedd llawn o staff.	20 (1) (a)			
	Argymhellir trefnu'r un staff asiantaeth rheolaidd er mwyn sicrhau cysondeb o ran gofal i gleifion.	20 (1) (b)			
	Mae'n rhaid bod pob aelod o'r staff wedi dilyn yr hyfforddiant diweddaraf, yn enwedig o ran parch, diogelu, a'r Ddeddf Iechyd Meddwl.	20 (1) (a)			

	Mae'n rhaid i bob aelod newydd o staff dderbyn hyfforddiant yn y rhaglen orfodol cyn dechrau yn y swydd neu'n fuan wedyn.	20 (1) (a) (2) (a)			
	Mae angen cynnal adolygiad o ffeiliau staff er mwyn sicrhau bod y gwaith papur perthnasol ynglŷn â swydd bresennol cyflogai ar gael.	21 (2) (d)			
	Rhaid gwella morâl ymhlith staff, a dylid rhoi pwyslais penodol ar arweinyddiaeth a dyfodol y gwasanaeth.	18 (2) (a) a (b)			
	Mae angen dadansoddi'r cwynion er mwyn pennu unrhyw themâu neu dueddiadau sydd efallai yn dod i'r amlwg y mae angen rhoi sylw iddynt.	24 (5)			
	Mae angen cynnal ymweliadau Rheoliad 28 bob chwe mis, a	28 (1) (2) (a) (b) (c) (3) (4)			

	rhaid anfon yr adroddiadau at AGIC.	(a) (b) (c) a (5) (a) (b) (c)			
	Rhaid mynd i'r afael â phob un o'r meysydd a nodwyd, gan gynnwys cwblhau cofnodion arsylwi'n fanwl gywir, darparu hyfforddiant parch ar gyfer mwy o staff, rhoi cynlluniau rheoli pwysau ar waith a sicrhau eu bod yn drylwyr, diwygio'r ffurflen asesiad risg gan nodi enw cywir y cleifion, ac adolygu nifer y dogfennau sydd ar gael a pha fformat y bydd yr ysbyty'n ei ddefnyddio.	15 (1) (a) (b) (c)			
Deddf Iechyd Meddwl					
	Mae'n rhaid i'r clinigydd cyfrifol presennol ar gyfer pob claf gwblhau pob ffurflen asesu galluedd.	Amherthnasol			
	Mae'n ofynnol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gyflwyno cadarnhad ysgrifenedig er mwyn pennu a ellir caniatáu'r absenoldeb dan Adran 17.	Amherthnasol			

	Mae angen dod o hyd i'r asesiad gweithiwr cymdeithasol sy'n eisiau a'i ychwanegu at ffeil y claf.	Amherthnasol			
--	--	--------------	--	--	--